# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Mai 2015 i'w hateb ar 2 Mehefin 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i bwysau ar wasanaethau brys yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)2305(FM)**W**

2. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru? OAQ(4)2297(FM)

3. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o diabetes yng Nghymru? OAQ(4)2299(FM)

4. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cyfraniad Llywodraeth Cymru at ddigwyddiad beicio Velothon Cymru? OAQ(4)2301(FM)

5. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Prif Weinidog wedi'u gomisiynu parthed yr effaith y bydd diddymu neu ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ei chael ar ddatganoli yng Nghymru? OAQ(4)2300(FM)**W**

6. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer

pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed gan Gyngor Sir Powys? OAQ(4)2304(FM)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad ei weinyddiaeth i gynyddu cyllid ysgolion 1 y cant yn uwch na'r newid yng ngrant bloc y Cynulliad? OAQ(4)2296(FM)

**8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ofal i bobl hŷn eiddil eu meddwl yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2307(FM)**W**

**9. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa faterion y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu codi yng nghyfarfod nesaf cydbwyllgor y Gweinidogion? OAQ(4)2306(FM)W

**10. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i wneud de-ddwyrain Cymru yn bwerdy economaidd ar gyfer y DU? OAQ(4)2298(FM)

**11. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gysylltiadau trafnidiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2303(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth targed Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy? OAQ(4)2294(FM)

**13. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am unrhyw gyfathrebu sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Ysgol Reolaeth ym Mhrifysgol Abertawe? OAQ(4)2302(FM)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y byddai'r DU yn gadael yr UE ei chael ar sector ymchwil Cymru? OAQ(4)2295(FM)

**15. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol am weddill y Cynulliad hwn? OAQ(4)2308(FM)